

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Penrhyn Angle

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 500 1000 m

PELLTER/HYD: 9.3 milltir (14.9 km) 5 awr, Adran ddeheuol 7.1 milltir (11.4 km) 3 awr 30 munud

CLUDIANT CYHOEDDUS: Bws gwasanaeth Angle 366/388, Coastal Cruiser

CYMERIAD: Egniol a serth mewn manau, caeau a da byw, ymyl clogwyni, 0.6 milltir (1.0 km) o gerdded ar isffyrdd

CHWILIWCH AM: Pentref Angle gyda phensaernïaeth Trefedigaethol Indiaidd unigryw • gorsafodd bad achub hen a newydd
• Ynys Thorn • hen sefydliadau rhyfel • taiith hyfryd trwy'r coetir gyda golygfeydd da o'r Daugleddau ar adran ogleddol y llwybr

MWY O WYBODAETH: Edrychwch ar y tablau llanw ar gyfer y llwybr llanw isel

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiâu

ALLWEDD

- Lwybr Cylch
- Lwybr Arfordir Sir Benfro
Lwybr Cenedlaethol
- - - Lwybrau Cyhoeddus
- P Maes Parcio
- WC Toiledau Cyhoeddus
- Bus Safle Bws

Milford Haven

Milford Haven

Ynys Thorn

Bae Gorllewin
Angle

Llwybr Ilygad

Angle

Llwybr llanw isel

Bae Angle

ANGLE C

Freshwater West

Angle Peninsula

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd : 3 awr 30 munud

Pellter : 9.3 milltir (14.9 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws gwasanaeth Angle 366/388, Coastal Cruiser

Cyfeirnod map: SM860027

Mae Penrhyn Angle yn dirwedd drawiadol, ddigysgod. Mae'r traeth bach yng Ngorllewin Angle yn wynebu aber dyfrffordd y Daugleddau ac mae'n gallu cael ei ddyrnu gan y gwyntoedd cryf, ond ar ddiwrnod da mae'n le gwych i bori trwy'r pyllau glan môr.

Tu hwn i Fae Gorllewin Angle mae Ynys Thorn, gyda'i chaer o Oes Fictoria. Dyma un o saith caer, sy'n dyddio o ail hanner yr 19eg ganrif, i amddiffyn y Daugleddau. Fe'u hadeiladwyd i amddiffyn yn erbyn bygythiad o Ffrainc na wireddwyd ac yn ddiweddarach enwyd yr amddiffynfeydd yn Palmerston's Follies ar ôl yr Arglwydd Palmerston, Prif Weinidog y dydd.

Mae'r llwybr hefyd yn cynnwys Bae Angle, darn cysgodol o fwd a thywod sy'n denu adar gwyllt a rhydwyd pan fydd y llanw'n isel. Mae'r bae yn fwrwm o adar yn ystod y gaeaf gyda heidiau mawr o bibyddion y mawn, cornicyllod a phibyddion coesgoch i'w gweld.

Mae gan bentref Angle draddodiad morol cyfoethog ac arferai fod yn gymuned bysgota brysur. Un stryd o fythynnod yw'r pentref, ar gefndir o gaeau ag arnynt ôl canrifoedd o amaethu sribed canoloesol – arwydd o hanes hir Angle.

Chwiliwch hefyd am sawl adeilad canoloesol gan gynnwys capel

pysgotwyr, colomendy a'r Tŷ Tŵr tri llawr unigryw, a adferwyd yn ddiweddar gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Adeiladwyd y tŷ tŵr sy'n dyddio o'r 1300au hwyr fel cartref caerog ar gyfer arglwyddi'r faenor yn Angle. Efallai mai 'yswiriant' ydoedd ar adeg o densiwn gwleidyddol gyda Ffrainc neu yn erbyn morladron ysbeilgar.

